**WHC (Blwyddyn) Rhif**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 14.01.2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: PERFFORMIAD/CYFLENWI**

**Teitl:** DSCN a thempled adrodd ar gyfer Casglu Data ar gyfer Adrodd am Oedi Ôl-driniaeth Cleifion Allanol

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** 31 Mawrth 2015

**I'w weithredu gan:**
Prif Swyddogion Gweithredol neu Gyfarwyddwyr Cynllunio a/neu Berfformiad – pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Felindre
Penaethiaid Gwybodaeth pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Felindre

**Angen gweithredu erbyn:** 31 Ionawr 2015
Yr amserlen adrodd wedi'i chynnwys yn y canllawiau

**Anfonir gan: Lesley Law**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Lesley Law, Cyflenwi Gofal wedi'i Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy
Rhif ffôn: 0300 062 5560

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Llythyr

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Department for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Weithredwyr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ein Cyf/Our Ref: LL/sr

14 Ionawr 2014

Annwyl Gyfaill

**Monitro Oedi Ôl-driniaeth Cleifion Allanol**

Yn dilyn y llythyr dyddiedig 28 Tachwedd ynghylch monitro oedi ôl-driniaeth cleifion allanol, gallaf gadarnhau fod y safon wedi'i symud drwy'r Broses Sicrwydd Safonau Gwybodaeth a Hysbysiad Newid Set Ddata (DSCN) a bod Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru wedi cymeradwyo system casglu data.

Mae DSCN 2014 / 02 yn amlinellu'r gofynion gwybodaeth/data mewn grym o 1 Ionawr 2015 (cyflwynir mis Chwefror 2015) sydd ar gael drwy'r safle Safonau Gwybodaeth: http://nww.nwisinformationstandards.wales.nhs.uk/dscns-2015

Diben y ffurflen yw tynnu sylw at nifer y cleifion sy'n aros o hyd (oedi) ar ddiwedd pob mis am apwyntiad ôl-driniaeth claf allanol. Mae angen i ni wybod faint sy'n aros a beth yw canran yr oedi ar sail y dyddiad targed (dylech droi at DSCN i weld canllawiau technegol llawn ynghylch cyfrifo'r oedi).

O ganlyniad i drafodaethau gyda Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno set ddata lefel claf drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel ateb hirdymor.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Sarn Mynach ● Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno ●
Llandudno Junction
LL31 9RZ

Ffôn ● Tel 0300 062 5560
Lesley.Law@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website:
www.cymru.gov.uk

Cytunwyd hefyd y byddai'r adroddiad yn gyfyngedig tan fis Ebrill i gleifion yn aros dros eu dyddiad targed sydd heb gael dyddiad i ddychwelyd am apwyntiad ôl-driniaeth i leihau'r baich ar y byrddau iechyd. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl cynnwys adrodd apwyntiadau cleifion allanol sydd wedi oedi ar gyfer y cleifion hynny sydd ag apwyntiad o 1 Ebrill 2015 ymlaen er mwyn deall beth yw cyfanswm yr apwyntiadau cleifion allanol sydd wedi oedi. Caiff DSCN a thempled casglu data diwygiedig eu cyhoeddi o fis Ebrill ymlaen.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal archwiliad ar gleifion allanol yn y Flwyddyn Newydd a bydd yn chwilio am wybodaeth am ôl-driniaeth i gefnogi'r adolygiad hwn.

Cysylltwch â mi ar 0300062 5560 neu Lesley.Law@wales.gsi.gov.uk os hoffech drafod hyn.

Diolch



**Lesley Law**
**Pennaeth Gofal wedi'i Drefnu**

c.c. Penaethiaid Gwybodaeth
Andrew Carruthers, Cyfarwyddwyr Rhaglen Gyflenwi, Llywodraeth Cymru